

## **HANES - YNYSOEDD PRYDAIN**

**Amser - 1.5 awr**

**Atebwch UN cwestiwn o Adran A ac UN cwestiwn o Adran B.  
Mae seren \* yn nodi cwestiwn ar Hanes Cymru.**

---

### **ADRAN A**

1. Pam y mae ymagwedd Farcsaidd tuag at y gorffennol wedi colli tir dros yr 50 mlynedd ddiwethaf?
2. Ai dim ond dull cyfleus i haneswyr osod trefn yw cysyniad y 'cyfnod modern cynnar' mewn gwirionedd?
3. Pa hanesydd sydd wedi cael y dylanwad mwyaf arnoch, a pham?
4. I ba raddau y mae gwybodaeth hanesyddol yn newid dros amser?
5. 'Mae gogwyddiadau gan bob hanesydd; nod hanes yw deall y gogwyddiadau hynny'. Trafodwch.
6. Beth yw'r heriau i'r hanesydd wrth ganfod achosiant?

### **ADRAN B**

#### **Y Cyfnod Cynnar a'r Oesoedd Canol**

7. I ba raddau y gellid cyfiawnhau hawl Gwilym Goncwerwr ar goron Lloegr?
8. Aseswch effaith y Goncwest Normanaidd ar Brydain.
9. Pam y cafodd Lloegr ei goresgyn ddwywaith yn yr unfed ganrif ar ddeg?
10. A oedd y Brenin John yn frenin gwael?
11. Pam y methodd y Magna Carta yn 1215?
12. Dadansoddwch brif nodweddion y frenhiniaeth Angefinaidd.

13. A yw 'ymerodraeth gyntaf Lloegr' yn ddisgrifiad defnyddiol o oruchafiaeth Lloegr ar Ynysoedd Prydain o'r ddeuddegfed ganrif i'r bedwaredd ganrif ar ddeg?
14. Aseswch effaith y Rhyfel Can Mlynedd ar Loegr tua diwedd yr Oesoedd Canol.
15. Beth oedd canlyniadau Gwrthryfel Glyndŵr? \*
16. Ym mha ffyrdd y cyfyngwyd ar bŵer y brenin yn Lloegr tua diwedd y canoloesoedd?
17. Beth achosodd i'r werin wrthryfela yn y canoloesoedd?
18. Pa mor 'Seisnig' oedd Lloegr yn y canoloesoedd?
19. Pryd ddaeth yr Oesoedd Canol i ben? Rhowch esboniad llawn o'ch ateb.

### Y Cyfnod Modern Cynnar

20. I ba raddau yr oedd Harri'r VIII yn Brotestant?
21. A fydddech chi'n cytuno i Elisabeth I ddod yn llwyddiannus trwy fod yn 'bendant o amhendant'?
22. 'Erbyn 1603 roedd Lloegr yn wlad Brotestannaidd, ond nid yn genedl o Brotestaniaid' (Christopher Haigh). Trafodwch.
23. A oes tystiolaeth o gwbl fod gan y Tuduriaid berthynas arbennig â phobl Cymru? \*
24. A oedd Cymru'n wlad Brotestannaidd erbyn 1603? \*
25. Ai rhyfel ynglŷn â chrefydd oedd Rhyfel Cartref Lloegr?
26. A oedd Cymru mewn gwirionedd yn gadarnle brenhinol yn ystod y Rhyfeloedd Cartref? \*
27. A fyddai'n gywirach cyfeirio at y 'Chwyldro Gogoneddus' fel goresgyniad llwyddiannus?

### Y Cyfnod Modern

28. Ai ofn oedd y prif ymateb ym Mhrydain i'r Chwyldro Ffrengig?
29. I ba raddau yr oedd dull milwriaethus y swffragetiaid yn niweidiol i'r ymgyrch ym Mhrydain i roi pleidlais i fenywod?
30. Pam yr oedd Pwnc Iwerddon mor anodd ei ddatrys yn y cyfnod 1885-1914?
31. Pa effaith a gafodd technolegau cyfathrebu newydd fel y telegraff ar gymdeithas Oes Fictoria?
32. Pa ystyriaethau a sbardunodd y llywodraethau Rhyddfrydol i wneud diwygiadau cymdeithasol yn y cyfnod Edwardaidd?
33. Sut mae esbonio parhad llwyddiant y Rhyddfrydwyr yng ngwleidyddiaeth Cymru yn y cyfnod 1869-1914? \*
34. Pa ffactorau oedd yn gyfrifol am yr 'Aflonyddwch Mawr' yn y de diwydiannol yng Nghymru cyn y Rhyfel Byd Cyntaf? \*

35. A oedd y Rhyfel Byd Cyntaf yn drobwynt yn hanes Cymru?\*
36. Pa ran, os o gwbl, a chwaraeodd y Rhyfel Byd Cyntaf yn rhyddfreniad menywod?
37. 'Ni welwyd llong yn ymddryllio dan law capten a chriw mwy anwybodus o'r rhesymau am ei helynt na mor analluog i wneud unrhyw beth ynglŷn â'r sefyllfa' (E. J. Hobsbawm, cyfieithiad). I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r farn hon am lywodraethau Prydain rhwng y rhyfeloedd a'u dull o ymdrin â'r dirwasgiad economaidd?
38. Pam y cafodd y dirwasgiad rhwng y rhyfeloedd effaith mor ddinistriol ar Gymru?\*
39. A oedd ardaloedd glofaol de Cymru yn haeddu'r enw a gawsant am fod yn ddiwydiannol filwriaethus yn yr ugeinfed ganrif? \*
40. A yw'r digwyddiadau i goffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf ym Mhrydain wedi canolbwyntio ar y rhai a fu farw ar draul dealltwriaeth hanesyddol?
41. I ba raddau yr oedd consensws ynglŷn â'r wladwriaeth les ymhlith y pleidiau gwleidyddol?
42. I ba raddau yr oedd Prydain yn rhan o'r Rhyfel Oer?
43. Aseswch effaith y mewnfudo o'r Gymanwlad ar ôl y Rhyfel ar ddiwylliant, cymdeithas ac economi Prydain.